**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad**
—
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Y Gwir Anrhydeddus Mark Drakeford AS
Prif Weinidog Cymru

21 Ionawr 2022

Annwyl Mark,

Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 23) 2021

Yn ystod ein cyfarfod ar 10 Ionawr 2022, gwnaethom drafod Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 23) 2021 (y Rheoliadau).

Roedd ein hadroddiad ar y Rheoliadau, a osodwyd ar 10 Ionawr 2022, yn cynnwys pedwar pwynt o ran rhinweddau i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd, ac roedd angen i Lywodraeth Cymru ymateb i ddau ohonynt.

Gwnaethom drafod ymateb Llywodraeth Cymru i'r pwyntiau hyn o ran rhinweddau yn ystod ein cyfarfod ar 17 Ionawr 2022.

Er hwylustod, dyma ein trydydd pwynt o ran rhinweddau, sef pwynt yr ydym yn ei godi’n rheolaidd mewn perthynas â rheoliadau ynghylch y coronafeirws:

> *“Nodwn nad oes asesiad o’r effaith ar gydraddoldeb ar gyfer y Rheoliadau a gofynnwn i Lywodraeth Cymru esbonio pa drefniadau y mae wedi eu gwneud, mewn perthynas â'r Rheoliadau, i gyhoeddi adroddiadau o'r asesiadau o’r effaith ar gydraddoldeb yn unol â rheoliad 8(1)(d) o Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011.*
>
> *Er y nodir bod y Memorandwm Esboniadol yn nodi bod asesiadau cryno o'r effaith yn cael eu paratoi a fydd yn cynnwys effeithiau sy'n ymwneud â gweithio gartref, nid yw'n eglur a fydd y rhain yn cynnwys asesiad o effaith ar gydraddoldeb ac, beth bynnag, nid ydynt ar gael i'r dinesydd ar hyn o bryd at ddibenion asesu effaith y darpariaethau newydd sy'n cael eu cyflwyno gan y Rheoliadau ar gydraddoldeb.”*

Dyma a nodwyd yn yr ymateb:

*"Mae Llywodraeth Cymru yn llunio ac yn cyhoeddi Asesiadau Effaith Cryno fel mater o drefn mewn perthynas â newidiadau yn y rheoliadau Coronafeirws ar y cyfle cyntaf ar ôl pob cyfnod adolygu. Mae'r Asesiadau Effaith Cryno hyn ar gael yma."*

Fel ar brynhawn dydd Llun 17 Ionawr, deallwn fod yr asesiad effaith mwyaf diweddar a oedd i'w weld ar dudalen asesiadau effaith Llywodraeth Cymru wedi'i gyhoeddi ar 2 Tachwedd 2021 a'i fod yn ymwneud â Phàs COVID y GIG. O gofio bod bron i dri mis wedi mynd heibio ers y dyddiad hwnnw ac y bu newidiadau sylweddol i'r rheoliadau ynghylch y coronafeirws yn ystod y cyfnod hwn, perodd hyn rywfaint o bryder i ni.

Yn dilyn ein cyfarfod, nododd swyddogion ein tîm clercio fod asesiad effaith pellach ar gyfer Pàs COVID diwygiedig y GIG wedi'i gyhoeddi ar 18 Ionawr. Serch hynny, byddem yn ddiolchgar pe gallech gadarnhau pryd y bydd asesiadau effaith cryno ar gyfer yr holl newidiadau a wnaed i'r rheoliadau ynghylch y coronafeirws ers mis Tachwedd, gan gynnwys, er enghraifft, y gofynion ynghylch gweithio gartref, digwyddiadau dan do/awyr agored, a gwisgo masgiau, ar gael i'r cyhoedd. Byddem hefyd yn croesawu unrhyw fanylion y gallwch eu rhoi i ni ar ganllawiau arfer gorau neu derfynau amser y mae eich swyddogion yn gweithio tuag atynt wrth baratoi a chyhoeddi'r asesiadau hyn yn dilyn pob cyfnod adolygu a newidiadau dilynol i reoliadau.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymateb erbyn 1 Chwefror 2022.

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd